



Delfryn  
Llwynpïod  
Llangeitho  
Tregaron  
Ceredigion  
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367  
Ffacs/Fax: 01974 298 089  
E-bost/E-mail: [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)  
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

**CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS LUN/MONDAY 16.09.2019**  
**@ 7.30 yh/pm YN Y NEUADD GOFFA/IN THE MEMORIAL HALL**

**COFNODION CYFARFOD MEDI 2019**  
**MINUTES OF SEPTEMBER 2019 MEETING**

1. **ADRODDIAD YR HEDDLU / REPORT FROM THE POLICE**

Derbyniwyd adroddiad o'r sefyllfa bresennol oddi amgylch y dre.

*A short overview of the current situation in the Town Centre was given.*

2. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod mis Medi

*The Chairman welcomed all to the September meeting.*

**PRESENNOL / PRESENT:** Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, Ann Jones, Alun Owen a Cyng/Cllr Rhydian Wilson.

3. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Cyng/Cllr June Owen, Gary Rees, Karine Davies a Cyng/Cllr Gwilym Jenkins.

4. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Cydymdeimlwyd efo Cyng June Owens am golli ei thad yn ddiweddar.

*Deepest Sympathy was extended to Cllr June Owens on the recent loss of her father.*

5. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

**CYNG/CLLR CATHERINE HUGHES – CYNLLUNIO / PLANNING**

Cyng Catherine Hughes i drafod efo Ms Elin Prysor am y drefn o sefyll mewn yng nghyfarfodydd y Cyngor pan yn trafod Cynllunio. Clerc i edrych mewn i cais am ollyngiad Cyng Arwel Jones dechrau'r flwyddyn

*Cllr Catherine Hughes to discuss with Ms Elin Prysor the procedure for staying in the Council meeting when Planning was discussed. Clerc to make further inquiries regarding Cllr Arwel Jones' original application for dispensation made earlier in the year.*

6. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 17.06.2019**

Cynnig / Proposer: Cyng/Cllr Alun Owen

Eilio / Seconded: Cyng/Cllr Ann Jones

7. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

7.1 Diolchwyd i Cyng Arwel Jones am wneud yr arolwg gweledol diwethaf yn y parc a chytunwyd i Cyng Arwel Jones ei wneud am fis eto. Cyng Arwel Jones i gysylltu â chwmnïau am brisiau gosod yr eitemau newydd yn y parc chwarae.

*Cllr Arwel Jones was thanked for carrying out the last visual park inspection and Cllr Arwel Jones offered to carry out the next inspection. Cllr Arwel Jones to contact various playground companies for competitive prices to install the new playground items.*

7.2 Soniwyd bod Mr Lewis Baron wedi dychwelyd o'r gwyliau salwch ac angen i Cyng Catherine Hughes i drefnu iddo fynychu cyfarfod y Cyngor Tref yn y dyfodol agos.

*It was mentioned that Mr Lewis Baron had returned from sick leave and that Cllr Catherine Hughes needed to arrange a date for him to attend the Town Council meeting.*

**CADEIRYDD / CHAIRPERSON**

- 7.3 Cyng Catherine Hughes dal yn disgwyl ymateb o'r Cyngor Sir am gyflwr y ffordd oddi amgylch CCF am y Ganolfan Hamdden.  
*Cllr Catherine Hughes awaiting a response from the County Council regarding the condition of the road around the CCF towards the Leisure Centre.*
- 7.4 E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Neil Hinchliffe yn ein hysbysu bod y Cyngor Sir yn ystyried opsiynau ar gyfer defnydd tymor hir yr hen gae chwarae Ysgol Gynradd Sirol Tregaron ac nid yw'n barod ar hyn o bryd i gytuno â chais Cyngor Tref. Cyng Catherine Hughes i drafod ymhellach a Mr Eifion Evans.  
*E-mail received from Neil Hinchliffe notifying us that the County Council are considering long term options on the old primary school's playing fields and are not prepared at this moment in time to agree to the Town Council's request. Cllr Catherine Hughes to discuss further with Mr Eifion Evans.*
- 7.5 Soniwyd bod sylwadau yn e-bost Mr John Lewis ym mis diwethaf yn cael eu trafod ymhellach yn y pwyllgor agored Apêl Tregaron Eisteddfod 2020.  
*It was mentioned that the points raised in Mr John Lewis' e-mail from last month would be discussed in the next open meeting of the Tregaron Appeal fund Eisteddfod 2020.*
- 7.6 Trafodaethau yn parhau rhwng Cyng Catherine Hughes a Mr Dorian Pugh ynglŷn â Pharêd Gŵyl Ddewi yn Nhregaron.  
*Discussion are continuing between Cllr Catherine Hughes and Mr Dorian Pugh regarding the St David's day Parade in Tregaron.*
- 7.7 Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth Mr Simon Crowe bod y coed wedi'u dorri nol ar y ffordd lan heol Abergwesyn am Nantcoy.  
*Confirmation received that Mr Simon Crowe had made arrangements for the trees to be cut back on the Abergwesyn road up towards Nantcoy.*
- 7.8 Cadarnhad wedi'u dderbyn bod y coed oedd wedi cwmpo lawr o'r clawdd ar Fferm Cefnresgair Fach wedi'u clirio.  
*Confirmation received that the tree branches that had fallen from the hedgerow of Cefnresgair Fach farm has been removed.*

## 8. CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS

- 8.1 Praesept (2) wedi'u fancio £6,666.67 wedi'u fancio/Prescept (2) had been banked
- 8.2 Talwyd C Benjamin am doriad rhif 3 o'r Eglwys dros gyfnod yr haf, awdurdodwyd hyn gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd £180.00 / C Benjamin was paid for cut no 3 of the Churchyard over the summer holidays, authorised by the Chair and Vice-chair.
- 8.3 D Benjamin £180.00 (toriad/cut 4)
- 8.4 Derbyniwyd taliad WPD £14.64 / WPD payment received.
- 8.5 HMRC NIC/TAX (4 & 5) £143.00
- 8.6 Cyflog Gweithiwr Strydlun/Street Scene Worker (07 & 08/19) £545.23
- 8.2 Cyflog Clerc/ Clerk's Salary (07 & 08/19) £503.60
- 8.3 Balans yn y banc/Bank Balance £25,653.28 (£39,872.14)
- 8.4 Derbyniwyd adroddiad archwiliad cymwysedig wedi ei gyhoeddi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a thrafodwyd y pwyntiau a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Cymru  
*The Auditor General for Wales issued Tregaron Town Council a qualified audit report and the points raised below were discussed.*
- 8.4.1 Dylai'r Cyngor Tref cyhoeddi'r Hysbysiad Pennu Dyddiad i Etholwyr Arfu ei Hawliau yn electronig.  
*The Town Council should publish the Notice of Appointment of Date for the Exercise of Electors' Rights electronically.*
- 8.4.2 Cyngor Tref ddim wedi mabwysiadu set o Reolau Sefydlog, set o reolau yn datgan sut mae'r Cyngor yn cynnal eu busnes yw Rheolau Sefydlog. Gellir gweld fersiynau model o'r Rheolau Sefydlog o swyddfa Un Llais Cymru neu SLCC.  
*Town Council had failed to adopt a set of Standing Orders, these are the set of rules by which the council conducts its business. Model versions of Standing Order are available from One Voice ales or SLCC.*

- 8.4.3 Cyngor Tref ddim wedi mabwysiadu Rheoliadau Ariannol, fframwaith sy'n nodi systemau ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor, i sicrhau fod ei gyllid yn cael ei weinyddu'n iawn.  
*Town Council had failed to adopt Financial Regulations, this is a framework setting out the council's approved financial systems to secure the proper administration of its finances.*
- 8.4.4 Bocs 6 – System o reoli - camddealltwriaeth ar ran yr archwilydd mewnol – ddylai ateb y bocs yma fod yn 'Do'  
*Box 6 – Financial Regulations – misunderstanding of the question by the Internal Auditor – box should be marked 'Yes'.*
- 8.4.5 Bocs 11 – Cronfeydd Ymddiriedolaeth – camddealltwriaeth ar ran yr archwilydd mewnol – ddylai ateb y bocs yma fod yn 'amh'.  
*Box 11 – Trust Funds – misunderstanding of the question by the Internal Auditor – box should be marked 'N/A'.*
- 8.4.6 Nodwyd fod lefel uchel o gronfeydd wrth gefn gan y Cyngor Tref ac mi ddylai'r Cyngor cymryd camau priodol i leihau'r lefel o gronfeydd wrth gefn yn y dyfodol. Soniwyd bod y Clerc wedi'u hysbysu am brosiectau arbennig ac ymweliad o'r Eisteddfod 2020 sydd yn mynd i leihau'r cronfeydd yn sylweddol.  
*It was noted that the Town Council hold a high level of general reserves and the council should consider taking steps to reduce the level of reserves in future years. Clerk did stress that a large amount of the reserves had been allocated to specific project and that the National Eisteddfod was to be held in Tregaron in 2020.*
- 8.4.7 Rhan 2 – Honiad 3 – Mae'r Cyngor wedi ateb 'Do' i focs 3 mewn perthynas â phwyllgorau ac is-bwyllgorau. Gan nad oes yna bwyllgorau nac is-bwyllgorau wedi'u sefydlu 'N/A' ddylai fod ym mocs 3.  
*Part 2 – Assertion 3 – The Council answered 'Yes' to Box 3 in relation to committees and sub-committees. As there were no committees or sub-committees the box should have been marked with 'N/A'.*

Trafodwyd yr uchod a chytunwyd i'w newid ar y ffurflen wreiddiol gan ofyn i'r Cadeirydd i ail-arwyddo'r ffurflen.  
*The above were discussed and agreed upon to change accordingly on the original return, Chairman to sign the form accordingly.*

Cynnig / Proposer: Cyng Rhydian Wilson  
Eilio / Seconded: Cyng Ann Jones

9. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**

Soniwyd bod y Gweithiwr Strydlun wedi newid ei swydd oddi fewn y Cyngor Sir ond ni fyddai hyn yn amharu efo'r gwaith i'r Cyngor Tref.  
Angen trefnu bod y poteli nwy yn cael ei symud o du cefn i'r banc boteli yn y mart.  
*It was mentioned that the Street Scene worker has changed his employment within the County Council but this would not affect his role with the Town Council.  
Gas bottle has been left unattended behind the bottle banks in the mart which required moving.*

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**

10.1 Ymgeisydd/Applicant: C Arthur  
Safle/Site: 17 Rhydyfawnog, Tregaron  
Y Bwriad/The Intention: Erection of a bungalow  
Rhif y Cais/Application No.: A190516

Ymholiad o fewn y Cyngor Sir efo'r cais yma – Dim gwrthwynebiad / Query within the County Council with this application – No objection

**CADEIRYDD / CHAIRPERSON**

- 10.2 Ymgeisydd/*Applicant*: Walker  
 Safle/*Site*: Plas Bach, Tregaron, SY25 6ND  
 Y Bwriad/*The Intention*: *Erection of a Conservatory*  
 Rhif y Cais/*Application No.*: A190618  
 Dim gwrthwynebiad / *No objection*
- 10.3 Ymgeisydd/*Applicant*: K Smith  
 Safle/*Site*: Argoed Fach, Tregaron  
 Y Bwriad/*The Intention*: *Proposed alterations and extension to dwelling*  
 Rhif y Cais/*Application No.:* A190636  
 Dim gwrthwynebiad / *No objection*
- 10.4 Ymgeisydd/*Applicant*: D Lloyd Davies  
 Safle/*Site*: Dolfelin, Tregaron  
 Y Bwriad/*The Intention*: *Erection of an agricultural shed for storage of machinery and feed*  
 Rhif y Cais/*Application No.:* A190616  
 Dim gwrthwynebiad / *No objection*

Cynnig / *Proposer*: Cyng Rhydian Wilson  
 Eilio / *Seconded*: Cyng Ann Jones

11. **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

12. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

13. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**

Cylchredwyd eisoes manylion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar ddydd Sadwrn 5 Hydref 2019 – Neb i fynychu.  
*Circulated previous details on the Annual General Meeting held on Saturday 5 October 2019 – No one available to attend*

14. **CYNLLUNIAU LLE / PLACE PLANS**

Pwyllgor wedi trefnu cwrdd yn fuan i drafod ymhellach am y cynlluniau lle ac mi fydd yna adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf.  
*Committee have arranged to meet in the very near future to discuss further regarding the place plans where a full report will be given in the next meeting.*

15. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**

Cynlluniau yn mynd yn ei flaen.  
*Plans are progressing.*

16. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2020**

- 16.1 Cynhelir tê prynhawn ar ddydd Sadwrn 28 Medi 2019. *An afternoon tea has been arranged for Saturday afternoon on 28<sup>th</sup> September 2019.*
- 16.2 Trafodaethau wedi'u ddechrau efo Cyngor Sir Ceredigion am adnewyddu biniau yn y dre ynghyd â'r arwyddion mewn i Geredigion ac yn y blaen  
*Discussions have commenced with the County Council regarding additional bins in the town and new signage into Ceredigion etc etc.*
- 16.3 Soniwyd bod W.I. Tregaron yn fodlon cynorthwyo gwneud y byntin.  
*It was mentioned that Tregaron W.I. would assist with making the bunting.*
- 16.4 Cynhelir cyfarfod agored nos Fercher 25 Medi 2019 am 7.30 lle byddant yn gofyn am awgrymiadau/syniadau i harddu'r dref.  
*An open meeting will be held on Wednesday 25<sup>th</sup> September 2019 at 7.30pm where suggestions/ideas will be asked for to decorate the town.*

**CADEIRYDD / CHAIRPERSON**

17. **PROSIECT PWLL NOFIO (TRIP) SWIMMING POOL PROJECT**

Cyfarfod i'w gynnal o fewn yr wythnos i drafod ymhellach, cadarnhau fod Cyngor Tref yn gefnogol i'r cais fynd yn ei flaen.

*Meeting will be held within the week to discuss further; Town Council are in support of the application to proceed.*

18. **SEDDU GWAG / VACANT POSITIONS**

Trafodwyd y seddu gwag a chytunwyd i gynnig y swyddi i Mr Evan Jones (Clerc i gysylltu yn swyddogol) a Ms Rhian Jones (Cyng Rhydian Wilson i gysylltu ag adrodd i'r Clerc)

*Vacant positions were discussed and it was agreed to offer the posts to Mr Evan Jones (Clerk to officially approach) & Ms Rhian Jones (Cllr Rhydian Wilson to make contact and report back to the Clerk).*

19. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**

19.1 Derbyniwyd diolchiadau am y rhodd ariannol oddi wrth Glwb Cinio Cylch Tregaron, Rasys Ceffylau Tregaron a Helfa Gogerddan Hunt.

*A vote of thanks was received from Clwb Cinio Cylch Tregaron, Rasys Ceffylau Tregaron & Gogerddan Hunt for the financial support they received.*

19.2 Gwybodaeth wedi'u dderbyn am bwyllgor efeillio a gynhelir ar nos Fawrth 17 Medi 2019, Cadeirydd yn methu mynychu.

*Information received on the next Twinning Committee which is held on Tuesday 17 September 2019, Chairman unable to attend.*

19.3 E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Mrs Fflur Lawlor yn rhoi awgrymiadau i weithio ar y cyd efo'r Cyngor Tref a Swyddfa Whilen y Porthmyn am ddod a'r dref yn dref heb blastig, ac o bosib cynnig ffynhonnau dwr am ddim oddi amgylch y dref. Trafodwyd y ddau gynnig ac mae'r Cyngor Tref yn gefnogol iawn i'r syniadau.

*E-mail received from Mrs Fflur Lawlor suggesting some improvements for the Town Council and Drover's Wheel office to work together to possibly make the town a plastic free town and supply a few water fountains around the town. The Town Council discussed both options and were in favour of them both.*

19.4 Derbyniwyd cylchlythry Eluned Morgan AM/AC.

*A newsletter from Eluned Morgan AM/AC was received.*

19.5 Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Powys a Fabwysiadwyd Ebrill 2018 'Ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Drafft' a soniwyd bod y cyfnod ymgynghori rhwng 09.08.2019 a 20.09.2019.

*Information received regarding 'Adopted Powys Local Development Plan April 2018 – Draft Supplementary Planning Guidance' and it was noted that the consultation period runs between 09.08.2019 & 20.09.2019.*

19.6 Derbyniwyd copïau o 'Adroddiad Blynnyddol 2018-19 – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys'

*Copies received of the 'Police & Crime Commissioner for Dyfed-Powys' Annual Report 2018-19'.*

20. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

20.1 Dim i'w adrodd ynglyn a'r hysbysfwrdd digidol.

*Nothing to report on the digital noticeboard.*

20.2 Golau lamp y Neuadd goffa ddim yn gweithio.

*Lamp outside the Hall not working.*

20.3 Trafodwyd y drefn newydd i'r cyfarfodydd misol a chytunwyd i'w cynnal ar y drydedd nos Lun yn y mis am 7.30yh.

*Format for the Council monthly meetings were discussed and it was agreed to hold them on the 3<sup>rd</sup> Monday in the month at 7.30pm.*

20.4 Cynhelir cyngerdd yn y clwb bowlio ar 12 Hydref 2019 am £5 yr un.

*Concert to be held in the Bowling Club on 12 October 2019 for £5 admission.*

**TERFYNNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED**

**CADEIRYDD / CHAIRPERSON**